Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf y Grŵp – Dydd Llun 5 Gorffennaf 2021

## Cofnodion Drafft

**Yn bresennol**

- Mark Isherwood AS
- Jane Dodds AS
- Paul Allcock, Allcock Family Funerals / Y Gymdeithas Trefnwyr Angladdau Perthynol ac Annibynnol (SAIF)
- Gemma O'Driscoll, O'Driscoll & Daughters / SAIF
- Kate Edwards, Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD) / tiwtor
- Jon Levett, NAFD
- Rachel Bradburne, NAFD
- Georgia Henney, Golden Charter
- Philip Blatchly, PR Blatchly & Son
- Lynda Wallis, Cadeirydd, Senedd Pobl Hŷn Cymru
- Martin Birch, Cyngor Caerdydd
- Deborah Smith, Wordsmith Communication

**Croeso**

Yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd blaenorol y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth, croesawodd Mark Isherwood y rhai a oedd yn bresennol, gan nodi mai diben y cyfarfod oedd ailffurfio'r Grŵp ac ethol deiliaid swyddi newydd.

**Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau gan:

- Llyr Gruffydd AS
- Mike Hedges AS
- Russell George AS
- Darren Millar AS
- Kim Bird, About The Funeral
- James Tovey, Tovey Brothers
- Gordon Swan, Golden Charter
- Terry Tennens, SAIF
- Stephen Tom, Phillip Tom & Sons

**Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth**

Cyn y cyfarfod, darparwyd cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2021.

Adolygodd y rhai a oedd yn bresennol y materion a oedd yn codi o'r cofnodion, gan gynnwys ymateb a gafwyd gan Kevin Foster AS, Gweinidog y Swyddfa Gartref, mewn perthynas â chynnal hawddfreintiau buddiol sy'n gysylltiedig â chofrestru marwolaethau, a ganiateir gan Ddeddf y Coronafeirws. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog fod Bil Aelod Preifat ar y pwnc gerbron y Senedd, ond bod y Bil hwnnw'n debygol o syrthio (fel y gwnaeth yn dilyn y cyfarfod). Serch hynny, dywedodd hefyd y byddai Llywodraeth y DU yn parhau i ystyried ffyrdd o foderneiddio'r gwasanaeth

cofrestru marwolaethau, o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth sylfaenol gyfredol, tra'n chwilio am gyfleoedd deddfwriaethol addas i gyflwyno diwygiadau.

Cafodd y cofnodion eu cynnig gan Jon Levett at ddibenion eu cymeradwyo, a chawsant eu heilio gan Paul Blatchly.

**Ethol deiliaid swyddi**

Cyflwynodd Deborah Smith, yr Ysgrifennydd Dros Dro, y broses ar gyfer ethol Cadeirydd y Grŵp, gan nodi bwriad Mark Isherwood AS i sefyll fel ymgeisydd. Ar ôl cadarnhau nad oedd unrhyw ymgeiswyr eraill, cafodd Mark ei gynnig gan Jane Dodds AS a chafodd ei eilio gan Kate Edwards. Yna, cafodd Mark ei ethol yn briodol fel Cadeirydd y Grŵp.

Fel Cadeirydd, cyflwynodd Mark y broses ar gyfer ethol Ysgrifennydd y Grŵp, gan nodi bwriad Deborah Smith o Wordsmith Communication i sefyll fel ymgeisydd. Nid oedd unrhyw ymgeiswyr eraill ar gyfer y rôl. Felly, cafodd Deborah ei chynnig gan Jon Levett a chafodd ei heilio gan Philip Blatchly. Yna, cafodd Deborah ei hethol yn briodol fel Ysgrifennydd y Grŵp.

**Diweddariad ynghylch COVID-19**

Nododd Mark Isherwood, ers y cyfarfod diwethaf, fod y cam o lacio'r cyfyngiadau terfynol, a oedd i fod i ddigwydd ar wahanol ddyddiadau ym mhedair gwlad y DU, wedi cael ei ohirio tan yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf. O ran y sefyllfa yng Nghymru, nododd fod nifer y bobl a oedd yn cael bod yn bresennol mewn angladd yn parhau i fod yn destun cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â maint y lleoliad ac asesiad risg, a bod presenoldeb yn cael ei ganiatáu drwy wahoddiad yn unig.

Gwahoddwyd Jon Levett, Prif Weithredwr sefydliad NAFD, i ddarparu trosolwg o'r datblygiadau diweddaraf yn genedlaethol. Yn ei ymateb, nododd Jon fod y drefn synhwyrol o gyfyngiadau ar angladdau sydd i'w gweld yng Nghymru bellach i'w gweld yn Lloegr hefyd, gyda'r cyfyngiadau ar angladdau yno yn symud tuag at fodel sy'n debyg i'r drefn yng Nghymru. Mae'r niferoedd sy'n cael bod yn bresennol yn cael eu pennu yn unol â chapasiti diogel o ran COVID y lleoliad dan sylw, a thrwy wahoddiad gan y teulu mewn profedigaeth. Yn ogystal, trafodwyd materion parhaus sy'n ymwneud â staff yn gorfod hunanynysu, gan arwain at broblemau capasiti.

Fodd bynnag, cadarnhaodd Martin Birch fod y gyfradd marwolaethau ar hyn o bryd yn normal ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn, er gwaethaf y cynnydd yn y gyfradd heintio.

Cafwyd trafodaeth ynghylch arferion sy'n ymwneud ag ymdrin â'r ymadawedig, ac ynghylch a fyddai'r rhain yn cael eu lleddfu wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Dywedodd Paul Allcock y dylid parhau i lynu wrth ganllawiau cyfredol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch / PHE ar gyfer gofalu am yr ymadawedig yn ystod y cyfnod COVID, gan ddweud eu bod yn synhwyrol ac yn ystyriol o ddiogelwch.

**Ymchwiliad i'r farchnad angladdau gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd**

Dywedodd Mark Isherwood wrth y Grŵp fod y Gorchymyn Ymchwilio i'r Farchnad Angladdau 2021, a gyflwynwyd yn sgil ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, wedi cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2021. Mae'r Gorchymyn yn cyflwyno rheoliadau statudol ar gyfer pob trefnydd angladdau yn y DU.

Cadarnhaodd Jon Levett y byddai'r Gorchymyn yn cael ei orfodi o 16 Medi ymlaen, gan nodi bod nifer o ofynion y bydd yn rhaid i gwmnïau angladdau eu bodloni, gan gynnwys rhoi manylion prisiau ar-lein ac mewn canghennau. Hefyd, os oes gan gwmni bum cangen neu fwy, bydd gofyn iddo adrodd ei ffigurau refeniw i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Mae'r Gorchymyn yn rhagnodol iawn,

a bydd cosbau sylweddol am beidio â chydymffurfio. Serch hynny, mae meysydd sylweddol o amwysedd o ran sut y dylid cydymffurfio â'r Gorchymyn. Roedd Paul Allcock, a oedd yn cynrychioli sefydliad SAIF, yn cytuno â'r pwynt hwn, a dywedodd ei fod yn parhau i bryderu bod rhai cwmnïau ym maes angladdau yn cuddio eu pennau yn y tywod mewn perthynas â'r Gorchymyn a'i ofynion.

Cadarnhaodd sefydliadau NAFD a SAIF eu bod yn cefnogi eu haelodau drwy ofyn cwestiynau a chodi pryderon ynghylch y broses o gydymffurfio â'r Gorchymyn. Roedd nifer o weminarau wedi'u trefnu ar gyfer yr haf, gan gynnwys sesiynau gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Nododd Philip Blatchly mai un o'r prif bryderon oedd ymwybyddiaeth ynghylch y Gorchymyn ymhlith cwmnïau angladdau nad ydynt yn aelodau o NAFD neu SAIF.

**Trefn reoleiddio'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer angladdau**

Dywedodd Rachel Bradburne, a oedd yn cynrychioli sefydliad NAFD, fod disgwyl i reolau ac amserlen mewn perthynas â rheoleiddio gwerthiant cynlluniau ar gyfer angladdau yn y DU gael eu cyhoeddi'n fuan. O fis Gorffennaf 2022 ymlaen, bydd y broses o reoleiddio gwerthiant cynlluniau ar gyfer angladdau yn dod o dan adain yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Tynnodd Rachel sylw hefyd at rai o ganlyniadau anfwriadol posibl y rheolau newydd, gan gynnwys sut y bydd modd gwarchod defnyddwyr sydd â chynlluniau ar gyfer angladdau gyda darparwyr sy'n aflwyddiannus o ran sicrhau cymeradwyaeth yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. O dan y rheolau newydd, bydd gofyn i ddarparwyr o'r fath roi'r gorau i fasnachu. Beth fydd yn digwydd i'r cynlluniau y maent eisoes wedi'u gwerthu? Nodwyd bod problem posibl o ran niweidio enw da cwmnïau angladdau yn y sefyllfaoedd hyn, gan fod cynlluniau yn aml yn cael eu gwerthu drwy gwmnïau angladdau – neu gyda Threfnydd Angladdau wedi'i enwi yn erbyn y cynllun dan sylw.

**Trafodaeth ar y rhaglen waith ar gyfer y 12 mis nesaf**

Nododd Mark Isherwood fod Adroddiad Etifeddiaeth wedi'i gynnwys yn y papurau ar gyfer y cyfarfod, a bod yr adroddiad hwnnw'n crynhoi'r themâu allweddol y ceisiodd y Grŵp fynd i'r afael â hwy yn ystod y Senedd ddiwethaf.

Er mwyn llywio'r broses o ddatblygu rhaglen waith ar gyfer y Grŵp hwn, gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Grŵp gyfrannu syniadau o ran y themâu a'r pynciau ychwanegol y maent yn dymuno eu cynnwys mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Roedd y materion allweddol yn cynnwys:

- Y gost o ddatblygu amlosgfeydd newydd / cyfyngiadau cynllunio
- Ailddefnyddio beddau (Deddf Claddu 1857)
- Stiwardiaeth amgylcheddol
- Rôl y sector o ran Cynllunio Brys
- Cymorth ariannol i bobl mewn profedigaeth
- Mathau amgen o waredu
- Mynwentydd llawn / heb eu defnyddio sydd wedi'u cadw gan yr Eglwys yng Nghymru
- Anghenion diwylliannol a chrefyddol gwahanol grwpiau ffydd a chred
- Argymhellion yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ynghylch safonau ansawdd, gan gynnwys archwilio cartrefi angladd, cofrestru / hyfforddi trefnwyr angladdau
- Parhau i gydweithio â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol

**Unrhyw fater arall**

Nodwyd y ffaith nad oedd unrhyw gyfieithiadau Cymraeg o ddogfennau yn ymwneud â Gorchymyn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar y farchnad angladdau ar gael ar hyn o bryd. Clywodd y Grŵp fod y pwynt hwn wedi'i godi gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Os bydd angen, bydd Mark Isherwood yn anfon llythyr ar y mater at dîm yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar ran y Grŵp.

Fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, mae Mark wedi cael ei wahodd i gyfarfodydd y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Angladdau a Phrofedigaeth yn San Steffan yn y dyfodol, a bydd yn adrodd yn ôl yn rheolaidd ar y pynciau a drafodir. Dywedodd Deborah Smith fod cyfarfod o'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol wedi cael ei gynnal ym mis Mehefin 2021, a'i bod wedi mynd i'r cyfarfod hwnnw ar ran y Cadeirydd.

Yn benodol, roedd trafodaeth yn y cyfarfod ar y mater o ailddefnyddio beddau, sydd wedi bod yn destun trafod yn Llundain ers rhai blynyddoedd, o ystyried y prinder lle sydd ar gael ar gyfer claddu. Bydd y mater hwn yn cael ei gynnwys hefyd yn adolygiad arfaethedig Comisiwn y Gyfraith ynghylch deddfwriaeth sy'n ymwneud â chladdu ac amlosgi. Roedd Syr John Hayes AS (Ceidwadwyr, South Holland and The Deepings, Tŷ'r Cyffredin), sef Cadeirydd y Grŵp Hollbleidiol Seneddol, wedi sicrhau ateb i gwestiwn ysgrifenedig ar y pwnc gan Alex Chalk, y Gweinidog Cyfiawnder, a ddywedodd: “The start date and detail of the Law Commission's project will be agreed between the Law Commission and this Department and will be announced in due course.

“The reuse of burial space is a sensitive issue and any changes need careful consideration. The Government welcomes information from burial providers about the circumstances in their area.”

Ar ôl y drafodaeth, gwnaeth y Grŵp gais bod y mater hwn yn cael ei ychwanegu at y rhestr o ychwanegiadau i'r Adroddiad Etifeddiaeth, a'i fod yn cael ei roi ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol.

(Nodyn cefndir defnyddiol: Ailddefnyddio beddau (Parliament.uk)

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Ar ôl trafodaeth ynghylch nifer y cyfarfodydd a gynhelir a'r ffordd orau o daro cydbwysedd rhwng cyfarfodydd rhithwir a chyfarfodydd personol, nododd Deborah Smith y byddai cyfarfod nesaf y Grŵp yn cael ei gynnal naill ar ddiwedd mis Medi neu ar ddechrau mis Hydref 2021.

**Atodiadau:**

Adroddiad etifeddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth yn y Bumed Senedd, Gorffennaf 2021 (wedi'i ddiweddaru)